Cyhoeddir y ddogfen hon yn
Gymraeg ac yn Saesneg

# Mapio'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) (2015) yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (2024)

Un o nodau sylfaenol yr ESG yw cyfrannu at y ddealltwriaeth gyffredin o sicrwydd ansawdd ar gyfer dysgu ac addysgu ar draws ffiniau ac ymhlith yr holl randdeiliaid. Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd gan y sector, mae QAA yn cynnig y ddogfen hon sy'n mapio'r ESG yn erbyn yr argraffiad diweddaraf (2024) o'r Cod Ansawdd. Mae'r ESG yn rhan annatod o'r fframweithiau rheoliadol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyfeirir atynt yn aml mewn trefniadau partneriaeth i ddarparwyr yn y DU sy'n gobeithio gweithio gyda phartneriaid yn Ewrop.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.1 POLISI AR GYFER SICRHAU ANSAWDD

Dylai sefydliadau fod â pholisi ar gyfer sicrhau ansawdd sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n ffurfio rhan o'u rheolaeth strategol. Dylai rhanddeiliaid mewnol ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn drwy drefnau a phrosesau priodol, gan gynnwys rhanddeiliaid allanol yn y gwaith hefyd.

**Y canllawiau:**

Y polisïau a'r prosesau yw prif gynhalwyr system sicrhau ansawdd sefydliadol cydlynol sy'n ffurfio cylch o wella parhaol ac sy'n cyfrannu at atebolrwydd y sefydliad. Mae'n cefnogi datblygiad diwylliant o wella ansawdd lle mae'r holl randdeiliaid mewnol yn gyfrifol am ansawdd ac yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau ansawdd ar bob lefel yn y sefydliad.

I hwyluso hyn, mae gan y polisi statws ffurfiol ac mae ar gael i'r cyhoedd.

Mae polisïau sicrhau ansawdd ar eu mwyaf effeithiol pan maent yn adlewyrchu'r berthynas rhwng gwaith ymchwil a dysgu ac addysgu ac yn rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun cenedlaethol y mae'r sefydliad yn gweithredu oddi mewn iddo, ac i gyd-destun y sefydliad a'i ddull strategol. Mae polisi o'r fath yn cefnogi:

- trefniant y system sicrhau ansawdd
- adrannau, ysgolion, cyfadrannau ac unedau cyfundrefnol eraill yn ogystal â rhai'r arweinwyr sefydliadol, aelodau unigol o'r staff a'r myfyrwyr i ysgwyddo eu cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd
- cywirdeb academaidd a rhyddid ac yn cadw llygad craff am dwyll academaidd
- ddiogelu yn erbyn unrhyw fath o anoddefgarwch neu wahaniaethu yn erbyn y myfyrwyr neu'r staff
- cyfranogaeth rhanddeiliaid allanol yn y gwaith o sicrhau ansawdd.

Mae'r polisi'n trosi'n arferion drwy amrywiaeth o brosesau sicrhau ansawdd mewnol sy'n caniatáu cyfranogaeth ar draws y sefydliad. Lle'r sefydliad yw penderfynu sut mae'r polisi'n cael ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu.

Mae'r polisi sicrhau ansawdd yn ymwneud hefyd ag unrhyw elfennau o weithgareddau'r sefydliad sy'n cael eu his-gontractio i bartïon eraill neu'n cael eu gweithredu gan bartïon eraill.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 1 - Defnyddio dull strategol o reoli ansawdd a safonau

Mae pob darparwr yn dangos bod ganddo ddull strategol o sicrhau safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi ei ymwreiddio ar bob lefel yn ei sefydliad.

**Yr Arferion Allweddol:**

1a. Cyfrifoldeb y darparwr yw safonau academaidd ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Mae cyrff dyfarnu graddau'n ymwybodol mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am y cymwysterau a gynigir yn eu henw.

1b. Defnyddir y dull strategol lle bynnag a sut bynnag y mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno, ac mae'r dull hwn wedi ei ymwreiddio yn niwylliant ac arferion y darparwyr.

1c. Mae'r dull strategol yn cyd-fynd â pholisïau ac arferion y darparwr ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol, i'w fyfyrwyr a'i staff.

1d. Cyhoeddir y dull strategol a chaiff ei ategu gan fframwaith llywodraethu cynhwysfawr ac eglur sy'n hygyrch ac sy'n cael ei gyfleu'n glir i'r staff, y myfyrwyr, a'r rhanddeiliaid allanol.

1e. Mae'r dull strategol yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.2 CYNLLUNIO A CHYMERADWYO RHAGLENNI

Dylai sefydliadau fod â phrosesau ar gyfer cynllunio a chymeradwyo eu rhaglenni. Dylid llunio'r rhaglenni fel eu bod yn cyflawni'r amcanion a osodir iddynt, yn cynnwys y canlyniadau dysgu a fwriedir. Dylai bennu a chyfathrebu'n glir pa gymhwyster fydd yn codi o raglen, a dylai gyfeirio at y lefel gywir ar y fframwaith cymwysterau cenedlaethol ar gyfer addysg uwch ac, o ganlyniad, at y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

**Y canllawiau:**

Mae rhaglenni astudio wrth graidd cenhadaeth addysgu'r sefydliadau addysg uwch. Maent yn rhoi gwybodaeth academaidd a sgiliau academaidd i fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai sy'n drosglwyddadwy, a allai ddylanwadu ar eu datblygiad personol ac y gellir eu defnyddio yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae'r rhaglenni:

- wedi'u llunio gydag amcanion cyffredinol sy'n cyfateb â strategaeth y sefydliad ac sydd â chanlyniadau dysgu a fwriedir clir
- wedi'u llunio gan gynnwys myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith
- yn elwa o arbenigedd allanol a phwyntiau cyfeirio allanol
- yn adlewyrchu pedwar pwrpas addysg uwch fel y maent wedi'u diffinio gan Gyngor Ewrop (cyfeiriwch at Gwmpas a Chysyniadau)
- wedi'u llunio fel eu bod yn galluogi i'r myfyriwr symud ymlaen yn esmwyth
- yn diffinio llwyth gwaith disgwyliedig y myfyriwr e.e. yn y System Casglu a Throsglwyddo Credydau Ewropeaidd (ECTS)
- yn cynnwys cyfleoedd lleoliad gwaith wedi'u strwythuro'n dda, lle bo'n briodol
- yn atebol i broses gymeradwyo ffurfiol sefydliadol.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth

Mae pob darparwr yn monitro ac yn adolygu ei ddarpariaeth yn rheolaidd i sicrhau safonau academaidd a gwella ansawdd. Cymerir camau pwrpasol i gynnwys y myfyrwyr, y staff ac arbenigwyr allanol mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso. Mae canlyniadau ac effeithiau'r gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried ar lefel y darparwr er mwyn ysgogi hunanwerthuso a gwella ymhob rhan o'r darparwr.

**Yr Arferion Allweddol:**

5g. Mae'r rhaglenni a'r modiwlau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan gymheiriaid mewnol ac allanol, a chyflogwyr a myfyrwyr, yn unol â dull strategol y darparwr o reoli ansawdd a safonau. Mae'r canlyniadau a geir o'r prosesau hynny sy'n ofynnol gan gyrff cyllido, achredu, proffesiynol a chymeradwyo'n bwydo i mewn i'r gwaith monitro ac adolygu.

### Egwyddor 7 - Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni

Mae pob darparwr yn cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu modiwlau a rhaglenni astudio gan sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae pob darparwr yn sicrhau bod ei ddarpariaeth a lefel y cymwysterau'n gymaradwy â'r rheiny a gynigir ar draws y DU, a, lle bo'n berthnasol, yn gyfatebol â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

**Yr Arferion Allweddol:**

7a. Mae pob rhaglen a modiwl yn bodloni safonau academaidd sy'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau a chredydau cenedlaethol sy'n berthnasol iddyn nhw. Lle bo'n berthnasol, mae'r ddarpariaeth hefyd yn bodloni gofynion y corff proffesiynol ac achredu, a safonau prentisiaethau.

7c. Rhoddir gwybodaeth glir am y dyfarniad perthnasol a'r broses o gofnodi ac ardystio deilliannau astudio i'r holl fyfyrwyr a staff sy'n ymwneud â'r gwaith o addysgu, dysgu a gwerthuso ar gyfer y rhaglen neu'r modiwl.

7e. Mae ymgysylltu a gwerthuso allanol yn rhannau integrol o'r prosesau o gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu.

7g. Mae myfyrwyr yn cyfranogi'n ystyrlon yn y gwaith o gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau.

## Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu

Mae pob darparwr yn hwyluso dull cydweithredol a chynhwysol sy'n galluogi i'w fyfyrwyr gael profiad dysgu o safon uchel a symud ymlaen drwy eu hastudiaethau. Cefnogir pob myfyriwr i ddatblygu a dangos sgiliau a galluoedd academaidd a phroffesiynol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n ymgorffori ethos o uniondeb academaidd, gyda deilliannau sy'n gymaradwy ar draws y DU ac sy'n cael eu cydnabod drwy'r byd i gyd.

**Yr Arferion Allweddol:**

11b. Rhoddir gwybodaeth glir i'r myfyrwyr am ddeilliannau dysgu arfaethedig y modiwlau a/neu'r rhaglenni a diben yr asesu, ac maen nhw'n cael eu galluogi i ddefnyddio adborth a rhoi awgrymiadau i gefnogi eu dysgu pellach.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.3 DYSGU, ADDYSGU AC ASESU SY'N CANOLBWYNTIO AR Y MYFYRIWR

Dylai sefydliadau sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n annog myfyriwr i gymryd rôl weithredol yn y gwaith o greu'r broses ddysgu, a bod asesiad y myfyrwyr yn adlewyrchu'r dull yma.

**Y canllawiau:**

Mae dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr yn chwarae rôl bwysig mewn ysgogi cymhelliant, hunanystyriaeth ac ymgysylltiad myfyrwyr yn y broses ddysgu. Mae hyn yn golygu rhoi ystyriaeth ofalus i gynllun a darpariaeth rhaglenni astudio ac asesu canlyniadau.

Mae gweithrediad dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr:

- yn parchu ac yn rhoi sylw i amrywiaeth y myfyrwyr a'u hanghenion, gan alluogi llwybrau dysgu hyblyg
- yn ystyried ac yn defnyddio dulliau gwahanol o ddarparu, lle bo'n briodol
- yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgol yn hyblyg
- yn gwerthuso ac yn addasu'r dulliau o ddarparu a'r dulliau addysgol yn rheolaidd
- yn annog naws o hunanreolaeth o fewn y dysgwr, gan sicrhau arweiniad a chefnogaeth ddigonol gan yr athro/athrawes
- yn hybu parch cyfartal o fewn y berthynas rhwng dysgwyr ac athrawon
- yn cynnwys gweithdrefnau priodol ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 2 - Cynnwys myfyrwyr fel partneriaid

Mae pob darparwr yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys ei fyfyrwyr fel partneriaid gweithredol yn y gwaith o sicrhau a gwella profiad dysgu myfyrwyr. Mae ymgysylltiad yn digwydd yn unigol ac ar y cyd i ddylanwadu ar bob lefel o astudio a gwneud penderfyniadau. Mae gwelliannau a nodir trwy weithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr yn cael eu gweithredu, lle bo'n briodol, a'u cyfathrebu i'r staff a'r myfyrwyr.

**Yr Arferion Allweddol:**

2a. Mae'r ymgysylltiad â'r myfyrwyr drwy gyfrwng gwaith partneriaeth yn fyfyriwr-ganolog, mae wedi ei arwain yn strategol ac mae wedi ei ymwreiddio yn niwylliant y darparwr.

2b. Mae'r gweithgareddau ymgysylltu a chynrychioli myfyrwyr wedi eu diffinio, eu cyfathrebu a'u cefnogi'n glir, a darperir adnoddau neilltuedig ar eu cyfer. Mae trefniadau eglur ar waith i sicrhau bod llais y corff myfyrwyr cyfan yn derbyn clust ac yr ymatebir iddo.

2c. Mae cyfleoedd a phrosesau ymgysylltu â myfyrwyr yn rhoi ystyriaeth i nodweddion y myfyrwyr ac yn ymatebol i'r amrywiaeth yng nghorff myfyrwyr pob darparwr. Maent yn cynnwys cyrff cynrychioli'r myfyrwyr, lle bo'n berthnasol.

### Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth

Mae pob darparwr yn monitro ac yn adolygu ei ddarpariaeth yn rheolaidd i sicrhau safonau academaidd a gwella ansawdd. Cymerir camau pwrpasol i gynnwys y myfyrwyr, y staff ac arbenigwyr allanol mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso. Mae canlyniadau ac effeithiau'r gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried ar lefel y darparwr er mwyn ysgogi hunanwerthuso a gwella ymhob rhan o'r darparwr.

**Yr Arferion Allweddol:**

5c. Mae'r staff a'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso, ac maent yn cael eu hyfforddi'n briodol i'w cefnogi yn eu gwaith.

Wrth ystyried pwysigrwydd asesu ar gyfer cynnydd y myfyrwyr a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer asesu'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- Mae aseswyr yn gyfarwydd â'r dulliau profi ac arholi presennol ac yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau eu hunain yn y maes yma
- Mae'r meini prawf asesu a'r dull asesu, yn ogystal â'r meini prawf marcio, yn cael eu cyhoeddi o flaen llaw
- Mae'r asesiad yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos i ba raddau y mae'r canlyniadau dysgu a fwriedir wedi'u cyflawni; mae'r myfyrwyr yn derbyn adborth sydd, os oes raid, yn cael ei gysylltu â chyngor am y broses ddysgu
- Lle bo'n bosibl, mae mwy nag un arholwr yn gwneud yr asesiad
- Mae'r rheoliadau ar gyfer asesu'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lliniarol
- Mae'r asesiad yn gyson, yn cael ei weithredu'n deg i bob myfyriwr ac yn cadw at y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi
- Mae gweithdrefn ffurfiol ar waith ar gyfer apeliadau myfyrwyr.

### Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu

Mae pob darparwr yn hwyluso dull cydweithredol a chynhwysol sy'n galluogi i'w fyfyrwyr gael profiad dysgu o safon uchel a symud ymlaen drwy eu hastudiaethau. Cefnogir pob myfyriwr i ddatblygu a dangos sgiliau a galluoedd academaidd a phroffesiynol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n ymgorffori ethos o uniondeb academaidd, gyda deilliannau sy'n gymaradwy ar draws y DU ac sy'n cael eu cydnabod drwy'r byd i gyd.

**Yr Arferion Allweddol:**

11a. Hysbysir y dysgu a'r asesu ar bob lefel gan ymchwil a/neu wybodaeth ysgolheigaidd. Mae'r addysgu, y dysgu a'r asesu wedi eu halinio i alluogi i'r myfyrwyr ddangos eu cyflawniadau a gwerthuso ac atgyfnerthu eu dysgu, eu sgiliau a'u gwybodaeth flaenorol, a chyflawni eu potensial.

11b. Rhoddir gwybodaeth glir i'r myfyrwyr am ddeilliannau dysgu arfaethedig y modiwlau a/neu'r rhaglenni a diben yr asesu, ac maen nhw'n cael eu galluogi i ddefnyddio adborth a rhoi awgrymiadau i gefnogi eu dysgu pellach.

11c. Mae'r aelodau o staff sy'n hwyluso gwaith dysgu ac yn goruchwylio gwaith ymchwil yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn cael eu cefnogi'n briodol i wella eu harferion addysgu a goruchwylio. Darperir cyrsiau gradd ymchwil mewn amgylcheddau cefnogol sy'n hwyluso gwaith dysgu ac ymchwil.

11d. Mae'r myfyrwyr yn cael eu hannog a'u galluogi i gymryd y cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a chymryd rhan weithredol mewn llunio a gwella'r broses ddysgu. Mae pob darparwr yn cynnig cyngor ac arweiniad yn barhaus am uniondeb academaidd i sicrhau bod ei fyfyrwyr a'i staff yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

11f. Mae pob darparwr yn cynllunio asesiadau sy'n profi deilliannau dysgu priodol ac sy'n deg, yn ddibynadwy, yn hygyrch, yn ddilys ac yn gynhwysol. Lle bo'n berthnasol ac yn gynaliadwy, cynigir amrywiol opsiynau i'r myfyrwyr wneud asesiadau, er mwyn hybu hygyrchedd a chynhwysiant.

## Egwyddor 12 - Gweithredu prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau

Mae gan bob darparwr brosesau cwyno ac apelio sy'n gadarn, yn deg, yn eglur ac yn hygyrch, a chânt eu hesbonio'n glir i'w staff a'u myfyrwyr. Mae'r polisïau a'r prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, a defnyddir y canlyniadau i gefnogi gwella'r ddarpariaeth a phrofiad y myfyrwyr.

**Yr Arferion Allweddol:**

12a. Mae'r polisïau a'r prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau'n hygyrch, yn gadarn ac yn gynhwysol, ac maent yn galluogi datrysiad prydlon lle bynnag y bo modd ac yn cynnwys gwybodaeth am y prosesau recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr.

12b. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau, gan gynnwys y wybodaeth amdanynt, yn glir ac yn agored i'r myfyrwyr, y rheiny sy'n eu cynghori nhw a'r rheiny sy'n gweithredu'r prosesau. Mae camau ffurfiol ac anffurfiol y prosesau wedi eu disgrifio'n glir.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.4 DERBYNIAD, CYNNYDD, CYDNABYDDIAETH AC ARDYSTIAD MYFYRWYR

Dylai sefydliadau ddefnyddio'n gyson y rheoliadau sydd wedi'u diffinio'n barod a'u cyhoeddi sy'n ymwneud â phob cam o 'gylch bywyd' y myfyriwr, e.e. derbyniad, cynnydd, cydnabyddiaeth ac ardystiad y myfyriwr.

**Y canllawiau:**

Mae darparu'r amodau a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol er mwyn i'r myfyrwyr symud ymlaen yn eu gyrfaoedd academaidd o fudd i'r myfyrwyr, rhaglenni, sefydliadau a systemau unigol. Mae'n hanfodol cael gweithdrefnau derbyn, cydnabod a chwblhau sy'n addas i'r pwrpas, yn arbennig pan fo myfyrwyr yn symudol o fewn ac ar draws systemau addysg uwch.

Mae'n bwysig bod polisïau mynediad, a phrosesau a meini prawf derbyn yn cael eu gweithredu'n gyson ac mewn ffordd agored a gonest. Darperir cyflwyniad ymsefydlu i'r sefydliad a'r rhaglen.

Mae angen i sefydliadau roi prosesau ac offer yn eu lle i gasglu, monitro, ac i weithredu ar, wybodaeth am gynnydd myfyrwyr.

Mae cydnabyddiaeth deg o gymwysterau addysg uwch, cyfnodau astudio a dysgu blaenorol, gan gynnwys cydnabyddiaeth o ddysgu anffurfiol ac nad yw'n ffurfiol, yn elfennau hanfodol i sicrhau cynnydd y myfyrwyr yn eu hastudiaethau, gan hybu symudedd ar yr un pryd.

Mae trefnau cydnabod priodol yn dibynnu ar:

- sicrhau bod yr arferion sefydliadol i roi cydnabyddiaeth yn cyfateb ag egwyddorion Confensiwn Lisbon ar Gydnabod Cymwysterau
- gydweithredu gyda sefydliadau eraill, asiantaethau sicrhau ansawdd a'r ganolfan ENIC/NARIC genedlaethol gyda'r bwriad o sicrhau cydnabyddiaeth gydlynol ar draws y wlad.

Mae graddio'n cynrychioli diweddglo cyfnod astudio'r myfyriwr. Mae angen i fyfyrwyr dderbyn dogfennaeth sy'n esbonio'r cymhwyster a enillwyd ganddynt, yn cynnwys y canlyniadau dysgu a gyflawnwyd a chyd-destun, lefel, cynnwys a statws yr astudiaethau a wnaed ac a gwblhawyd yn llwyddiannus.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 4 - Defnyddio data i hysbysu a gwerthuso ansawdd

Mae pob darparwr yn casglu, yn dadansoddi ac yn defnyddio data meintiol ac ansoddol ar lefelau'r sefydliad, yr adrannau, y rhaglenni a'r modiwlau. Mae'r dadansoddiadau hyn yn hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn gwella arferion a phrosesau sy'n ymwneud â'r dysgu, yr addysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr.

**Yr Arferion Allweddol:**

4a. Ymhob rhan o'r darparwr, defnyddir dull strategol cyson a chydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gasglu, storio a rheoli data. Mae pob darparwr yn esbonio'n glir beth yw'r math a'r lefel o ddata a ddefnyddir (megis lefel yr adran/rhaglen/modiwl), a beth yw'r polisïau a'r prosesau sy'n tanategu'r defnydd a wneir ohoni i gynnal safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd.

4c. Yn rhan o'u gwaith o gynllunio a gweithredu trefniadau monitro a gwerthuso, mae'r staff a'r myfyrwyr yn cadw at ofynion moesegol a gofynion diogelu data sy'n ymwneud â chasglu a chyflwyno data ar gyfer cyfresi data cenedlaethol, at ddibenion rheoleiddiol, ac ar gyfer prosesau monitro a gwerthuso mewnol.

### Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth

Mae pob darparwr yn monitro ac yn adolygu ei ddarpariaeth yn rheolaidd i sicrhau safonau academaidd a gwella ansawdd. Cymerir camau pwrpasol i gynnwys y myfyrwyr, y staff ac arbenigwyr allanol mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso. Mae canlyniadau ac effeithiau'r gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried ar lefel y darparwr er mwyn ysgogi hunanwerthuso a gwella ymhob rhan o'r darparwr.

**Yr Arferion Allweddol:**

5b. Mae'r dulliau monitro a gwerthuso'n cael eu dogfennu i egluro eu nodau, eu hamcanion, eu targedau, a'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd. Mae'r ddogfennaeth yn nodi'n glir sut y cânt eu gweithredu, natur y dystiolaeth (data) sydd i gael ei hystyried a'r dulliau adrodd, yn ogystal â dangosyddion llwyddiant allweddol.

## Egwyddor 7 - Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni

Mae pob darparwr yn cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu modiwlau a rhaglenni astudio gan sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae pob darparwr yn sicrhau bod ei ddarpariaeth a lefel y cymwysterau'n gymaradwy â'r rheiny a gynigir ar draws y DU, a, lle bo'n berthnasol, yn gyfatebol â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

**Yr Arferion Allweddol:**

7a. Mae pob rhaglen a modiwl yn bodloni safonau academaidd sy'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau a chredydau cenedlaethol sy'n berthnasol iddyn nhw. Lle bo'n berthnasol, mae'r ddarpariaeth hefyd yn bodloni gofynion y corff proffesiynol ac achredu, a safonau prentisiaethau.

7c. Rhoddir gwybodaeth glir am y dyfarniad perthnasol a'r broses o gofnodi ac ardystio deilliannau astudio i'r holl fyfyrwyr a staff sy'n ymwneud â'r gwaith o addysgu, dysgu a gwerthuso ar gyfer y rhaglen neu'r modiwl.

## Egwyddor 9 - Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr

Mae pob darparwr yn gweithredu prosesau recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr sy'n eglur, yn deg ac yn gynhwysol. Mae pob darparwr yn cadw, yn cynnal ac yn cyhoeddi gwybodaeth gywir, berthnasol a hygyrch am ei ddarpariaeth, gan alluogi i'w fyfyrwyr wneud dewisiadau deallus am eu hastudiaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Yr Arferion Allweddol:**

9a. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a gwneud cais, a dethol a derbyn myfyrwyr i raglenni'n ddibynadwy, yn deg, yn eglur ac yn hygyrch, gan gynnwys y prosesau ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol. Mae trefniadau tebyg a chymesur ar waith ar gyfer modiwlau ac unedau astudio eraill.

9b. Mae darparwyr yn cynnig gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr a'r rheiny sy'n eu cynghori, at ddibenion recriwtio ac ehangu mynediad, sydd o gymorth iddyn nhw wrth wneud penderfyniadau deallus. Mae pob darparwr yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol mewn perthynas â'r wybodaeth y mae'n ei chyflwyno amdano ei hun a'i ddarpariaeth, neu unrhyw newidiadau a wneir i fodiwlau a rhaglenni astudio.

9d. Mae pob tîm sy'n ymwneud â'r prosesau ymgeisio a dethol a derbyn myfyrwyr yn sicrhau bod y wybodaeth am y broses ymgeisio'n gyson ac yn eglur. Mae elfennau penodol o'r broses ddethol wedi eu diffinio'n glir, ac mae unrhyw newidiadau i raglenni neu fodiwlau a allai effeithio ar y penderfyniadau a wneir yn cael eu cyfathrebu'n brydlon a chyson er mwyn galluogi i bob parti wneud dewisiadau deallus.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.5 STAFF ADDYSGU

Dylai sefydliadau eu sicrhau eu hunain o gymhwysedd eu hathrawon. Dylent ddefnyddio prosesau teg ac eglur ar gyfer penodi a datblygu'r staff.

**Y canllawiau:**

Mae rôl athrawon yn hanfodol i greu profiad o safon uchel i'r myfyrwyr a'u galluogi i ddysgu gwybodaeth, galluoedd a sgiliau. Wrth i'r boblogaeth fyfyrwyr ddod yn fwy amrywiol a gyda'r ffocws cryfach ar ganlyniadau dysgu, mae angen cael dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr ac felly mae rôl yr athro'n newid (cyfeiriwch at Safon 1.3).

Mae gan sefydliadau addysg uwch y prif gyfrifoldeb am ansawdd eu staff ac am roi amgylchedd cefnogol iddynt sy'n eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae amgylchedd o'r fath yn:

- sefydlu a dilyn prosesau clir, eglur a theg ar gyfer penodi staff ac amodau cyflogaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd addysgu
- cynnig cyfleoedd i gael datblygiad proffesiynol ac yn hybu datblygiad proffesiynol staff addysgu
- annog gweithgareddau ysgolheigaidd i gryfhau'r cysylltiad rhwng gwaith addysgu a gwaith ymchwil
- annog arloesi mewn dulliau addysgu a defnyddio technolegau newydd.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 4 - Defnyddio data i hysbysu a gwerthuso ansawdd

Mae pob darparwr yn casglu, yn dadansoddi ac yn defnyddio data meintiol ac ansoddol ar lefelau'r sefydliad, yr adrannau, y rhaglenni a'r modiwlau. Mae'r dadansoddiadau hyn yn hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn gwella arferion a phrosesau sy'n ymwneud â'r dysgu, yr addysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr.

**Yr Arferion Allweddol:**

4d. Mae'r aelodau o staff y mae gofyn iddynt gasglu, prosesu a dadansoddi data at ddibenion rhoi adroddiad a sicrhau a gwella ansawdd, yn derbyn hyfforddiant sy'n eu galluogi i wneud y gweithgareddau hyn yn effeithiol, yn foesegol ac yn ddiogel. Mae polisïau'n ymwneud â defnydd a wneir o ddata gan unrhyw drydydd parti, gan gynnwys systemau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.

### Egwyddor 9 - Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr

Mae pob darparwr yn gweithredu prosesau recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr sy'n eglur, yn deg ac yn gynhwysol. Mae pob darparwr yn cadw, yn cynnal ac yn cyhoeddi gwybodaeth gywir, berthnasol a hygyrch am ei ddarpariaeth, gan alluogi i'w fyfyrwyr wneud dewisiadau deallus am eu hastudiaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Yr Arferion Allweddol:**

9c. Mae hyfforddiant ac adnoddau priodol ar gael i'r staff, cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r partneriaid allanol sy'n cymryd rhan mewn prosesau recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr, ac ehangu mynediad.

## Egwyddor 10 - Cefnogi myfyrwyr i gyflawni eu potensial

Mae pob darparwr yn hwyluso fframwaith cymorth i'w fyfyrwyr sy'n galluogi iddynt gael profiad dysgu o safon uchel a chyflawni eu potensial wrth iddynt symud ymlaen yn eu hastudiaethau. Mae'r strwythur cymorth yn ategu'r daith ddysgu academaidd, bersonol a phroffesiynol, gan alluogi i'r myfyrwyr adnabod a disgrifio eu datblygiad a'u cyflawniadau.

**Yr Arferion Allweddol:**

10d. Mae'r staff yn meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol a chânt eu cefnogi i ddarparu dysgu a chymorth o safon uchel i bob myfyriwr, yn arbennig y rheiny sydd ag anghenion a gofynion penodol.

## Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu

Mae pob darparwr yn hwyluso dull cydweithredol a chynhwysol sy'n galluogi i'w fyfyrwyr gael profiad dysgu o safon uchel a symud ymlaen drwy eu hastudiaethau. Cefnogir pob myfyriwr i ddatblygu a dangos sgiliau a galluoedd academaidd a phroffesiynol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n ymgorffori ethos o uniondeb academaidd, gyda deilliannau sy'n gymaradwy ar draws y DU ac sy'n cael eu cydnabod drwy'r byd i gyd.

**Yr Arferion Allweddol:**

11c. Mae'r aelodau o staff sy'n hwyluso gwaith dysgu ac yn goruchwylio gwaith ymchwil yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn cael eu cefnogi'n briodol i wella eu harferion addysgu a goruchwylio. Darperir cyrsiau gradd ymchwil mewn amgylcheddau cefnogol sy'n hwyluso gwaith dysgu ac ymchwil.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.6 ADNODDAU DYSGU A CHYMORTH I FYFYRWYR

Dylai sefydliadau fod â chyllido priodol ar gyfer gweithgareddau dysgu ac addysgu a sicrhau bod adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr yn cael eu darparu sy'n ddigonol ac yn hawdd cael gafael arnynt.

**Y canllawiau:**

I roi profiad addysg uwch da, mae sefydliadau'n darparu ystod o adnoddau i helpu'r myfyrwyr i ddysgu. Mae'r rhain yn amrywio o adnoddau ffisegol megis llyfrgelloedd, cyfleusterau astudio a seilwaith TG i gefnogaeth ddynol ar ffurf tiwtoriaid, cwnselwyr a chynghorwyr eraill. Mae rôl y gwasanaethau cymorth o bwysigrwydd arbennig i hwyluso symudedd myfyrwyr o fewn ac ar draws y systemau addysg uwch.

Mae anghenion poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr (megis myfyrwyr hŷn, myfyrwyr rhan amser, myfyrwyr mewn swydd gyflogedig a myfyrwyr rhyngwladol yn ogystal â myfyrwyr gydag anableddau), a'r symudiad tuag at ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a dulliau hyblyg o ddysgu ac addysgu, yn derbyn ystyriaeth wrth ddyrannu, cynllunio a darparu'r adnoddau dysgu a'r cymorth i fyfyrwyr.

Gallai gweithgareddau a chyfleusterau cymorth gael eu trefnu mewn amrywiaeth o ffyrdd yn dibynnu ar y cyd-destun sefydliadol. Fodd bynnag, mae'r system sicrhau ansawdd fewnol yn gwneud yn siŵr bod yr holl adnoddau'n addas i'w pwrpas, yn hygyrch, a bod myfyrwyr yn cael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

Wrth ddarparu gwasanaethau cymorth mae rôl y staff cymorth a'r staff gweinyddol yn hanfodol ac felly mae'n rhaid iddynt fod yn gymwysedig a chael cyfleoedd i ddatblygu eu galluoedd.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 3 - Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyflwyno profiad dysgu o safon uchel

Mae pob darparwr yn cynllunio, yn sicrhau ac yn cynnal lefel briodol o adnoddau dysgu, adnoddau technolegol, adnoddau dynol, a chyfleusterau i'w galluogi i gyflwyno a gwella profiad dysgu hygyrch ac arloesol o safon uchel i'w fyfyrwyr, sy'n cyfateb â strategaeth y darparwr ac â chyfansoddiad ei gorff myfyrwyr.

**Yr Arferion Allweddol:**

3b. Mae pob darparwr yn sicrhau bod ganddo adnoddau neilltuedig, hygyrch a chynhwysol i gefnogi a gwella cyflwyniad ei raglenni (ac unedau astudio llai), yn ogystal â lles ei fyfyrwyr a'i staff. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau dynol ac adnoddau digidol a ffisegol.

3d. Dyrennir adnoddau priodol i sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi a gwella eu gwaith o gyflwyno profiad dysgu ac ymchwil arloesol o safon uchel i'r myfyrwyr.

3e. Mae digon o adnoddau penodol ar gael ar gyfer prosesau a gweithgareddau i gefnogi'r gwaith o reoli safonau academaidd a gwella ansawdd er mwyn cyflawni amcanion a gofynion strategol, gweithredol a rheoleiddiol.

3f. Mae amgylcheddau dysgu (ffisegol a rhithwir) hygyrch a chynhwysol yn cael eu creu, eu datblygu, a'u cadw a'u cynnal, sy'n rhoi'r cyfle i bob myfyriwr fwynhau eu profiadau dysgu ac maen nhw'n hyrwyddo teimlad o berthyn. Mae darparwyr yn sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol wrth gynllunio a chynnal yr adnoddau a'r cyfleusterau dysgu hyn.

3g. Mae darparwyr, mewn cydweithrediad â'u staff a'u myfyrwyr, yn monitro ac yn gwerthuso'n systematig effeithiolrwydd ac effaith amgylcheddau dysgu a'r adnoddau gofynnol ar gyfer cyflwyno a gwella'r profiad dysgu.

## Egwyddor 10 - Cefnogi myfyrwyr i gyflawni eu potensial

Mae pob darparwr yn hwyluso fframwaith cymorth i'w fyfyrwyr sy'n galluogi iddynt gael profiad dysgu o safon uchel a chyflawni eu potensial wrth iddynt symud ymlaen yn eu hastudiaethau. Mae'r strwythur cymorth yn ategu'r daith ddysgu academaidd, bersonol a phroffesiynol, gan alluogi i'r myfyrwyr adnabod a disgrifio eu datblygiad a'u cyflawniadau.

**Yr Arferion Allweddol:**

10a. Mae pob darparwr yn cynnig gwybodaeth hygyrch, berthnasol, gywir ac amserol i'w fyfyrwyr, a'r staff sy'n eu cefnogi drwy gydol eu teithiau dysgu, am y sefydliad, ac am y rhaglenni astudio, y cyfleoedd datblygu ehangach a'r gwasanaethau cymorth y mae'n eu cynnig.

10b. Cefnogir pob myfyriwr ar bwyntiau pontio allweddol drwy gydol eu taith ddysgu, gan ateb eu hanghenion a'u gofynion arbennig a chydnabod eu llwybrau i mewn i ddysgu.

10c. Mae'r myfyrwyr a'r staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau academaidd, proffesiynol a bugeiliol parhaus sydd ar gael iddyn nhw, ac anogir y myfyrwyr i fanteisio ar y cymorth a'r cyfleoedd hyn drwy gydol eu taith ddysgu.

10d. Mae'r staff yn meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol a chânt eu cefnogi i ddarparu dysgu a chymorth o safon uchel i bob myfyriwr, yn arbennig y rheiny sydd ag anghenion a gofynion penodol.

10e. Mae'r myfyrwyr a'r staff yn cydnabod bod gweithgareddau a gynigir y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol yn fuddiol o ran hybu ymdeimlad o berthyn ymysg y myfyrwyr, yn ogystal â rhoi cyfleoedd iddyn nhw ehangu eu sgiliau a'u cyflawniadau, gan gyflenwi eu hastudiaethau ffurfiol.

## Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu

Mae pob darparwr yn hwyluso dull cydweithredol a chynhwysol sy'n galluogi i'w fyfyrwyr gael profiad dysgu o safon uchel a symud ymlaen drwy eu hastudiaethau. Cefnogir pob myfyriwr i ddatblygu a dangos sgiliau a galluoedd academaidd a phroffesiynol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n ymgorffori ethos o uniondeb academaidd, gyda deilliannau sy'n gymaradwy ar draws y DU ac sy'n cael eu cydnabod drwy'r byd i gyd.

**Yr Arferion Allweddol:**

11a. Hysbysir y dysgu a'r asesu ar bob lefel gan ymchwil a/neu wybodaeth ysgolheigaidd. Mae'r addysgu, y dysgu a'r asesu wedi eu halinio i alluogi i'r myfyrwyr ddangos eu cyflawniadau a gwerthuso ac atgyfnerthu eu dysgu, eu sgiliau a'u gwybodaeth flaenorol, a chyflawni eu potensial.

11b. Rhoddir gwybodaeth glir i'r myfyrwyr am ddeilliannau dysgu arfaethedig y modiwlau a/neu'r rhaglenni a diben yr asesu, ac maen nhw'n cael eu galluogi i ddefnyddio adborth a rhoi awgrymiadau i gefnogi eu dysgu pellach.

11c. Mae'r aelodau o staff sy'n hwyluso gwaith dysgu ac yn goruchwylio gwaith ymchwil yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn cael eu cefnogi'n briodol i wella eu harferion addysgu a goruchwylio. Darperir cyrsiau gradd ymchwil mewn amgylcheddau cefnogol sy'n hwyluso gwaith dysgu ac ymchwil.

11e. Wrth i'r myfyrwyr symud ymlaen drwy eu taith ddysgu, maent yn cael cyfle a chefnogaeth i drosglwyddo'n effeithiol rhwng lefelau academaidd, astudiaeth bellach a chyflogaeth. Mae pob darparwr yn galluogi i'w fyfyrwyr adnabod y datblygiad y maent wedi ei wneud a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni eu potensial.

11f. Mae pob darparwr yn cynllunio asesiadau sy'n profi deilliannau dysgu priodol ac sy'n deg, yn ddibynadwy, yn hygyrch, yn ddilys ac yn gynhwysol. Lle bo'n berthnasol ac yn gynaliadwy, cynigir amrywiol opsiynau i'r myfyrwyr wneud asesiadau, er mwyn hybu hygyrchedd a chynhwysiant.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.7 RHEOLI GWYBODAETH

Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth berthnasol er mwyn rheoli eu rhaglenni a gweithgareddau eraill yn effeithiol.

**Y canllawiau:**

Mae data dibynadwy'n hanfodol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau deallus ac i wybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen sylw. Mae prosesau effeithiol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am raglenni astudio a gweithgareddau eraill yn bwydo i mewn i'r system sicrhau ansawdd fewnol.

Mae'r wybodaeth a gesglir yn dibynnu, i ryw raddau, ar y math o sefydliad a chenhadaeth y sefydliad. Mae'r canlynol o ddiddordeb:

- Dangosyddion perfformiad allweddol;
- Proffil poblogaeth y myfyrwyr;
- Cyfraddau cynnydd a llwyddiant y myfyrwyr a'r myfyrwyr sy'n ymadael yn fuan;
- Boddhad y myfyrwyr gyda'u rhaglenni;
- Yr adnoddau dysgu a'r cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael;
- Llwybrau gyrfaol y graddedigion.

Mae modd defnyddio dulliau amrywiol o gasglu gwybodaeth. Mae'n bwysig bod y myfyrwyr a'r staff yn cyfranogi yn y gwaith o ddarparu a dadansoddi gwybodaeth a chynllunio camau dilyniant.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 4 - Defnyddio data i hysbysu a gwerthuso ansawdd

Mae pob darparwr yn casglu, yn dadansoddi ac yn defnyddio data meintiol ac ansoddol ar lefelau'r sefydliad, yr adrannau, y rhaglenni a'r modiwlau. Mae'r dadansoddiadau hyn yn hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn gwella arferion a phrosesau sy'n ymwneud â'r dysgu, yr addysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr.

**Yr Arferion Allweddol:**

4a. Ymhob rhan o'r darparwr, defnyddir dull strategol cyson a chydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gasglu, storio a rheoli data. Mae pob darparwr yn esbonio'n glir beth yw'r math a'r lefel o ddata a ddefnyddir (megis lefel yr adran/rhaglen/modiwl), a beth yw'r polisïau a'r prosesau sy'n tanategu'r defnydd a wneir ohoni i gynnal safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd.

4b. Mae'r staff a'r myfyrwyr yn ymwybodol o'r mathau o ddata a gesglir a'r dulliau o'i storio a'i ddefnyddio i reoli ansawdd a safonau.

4c. Yn rhan o'u gwaith o gynllunio a gweithredu trefniadau monitro a gwerthuso, mae'r staff a'r myfyrwyr yn cadw at ofynion moesegol a gofynion diogelu data sy'n ymwneud â chasglu a chyflwyno data ar gyfer cyfresi data cenedlaethol, at ddibenion rheoleiddiol, ac ar gyfer prosesau monitro a gwerthuso mewnol.

4e. Mae pob darparwr sy'n gweithio o dan drefniadau partneriaeth (gan gynnwys corff cynrychioli ei fyfyrwyr, lle bo'n berthnasol) yn sicrhau bod cytundebau rhannu data a gofynion adrodd wedi eu nodi'n glir, bod pawb yn eu deall, a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyfnodol.

4f. Cesglir a dadansoddir data mewn ffyrdd sy'n galluogi i'r darparwyr ddeall anghenion eu poblogaethau myfyrwyr ac ymateb iddynt, gan hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.8 GWYBODAETH GYHOEDDUS

Dylai sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am eu gweithgareddau, gan gynnwys eu rhaglenni, sy'n glir, cywir, gwrthrychol, wedi'i diweddaru ac sy'n hawdd cael gafael arni.

**Y canllawiau:**

Mae gwybodaeth am weithgareddau'r sefydliadau'n ddefnyddiol i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, yn ogystal ag i raddedigion, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd.

Felly, mae sefydliadau'n darparu gwybodaeth am eu gweithgareddau, gan gynnwys y rhaglenni y maent yn eu cynnig, y meini prawf dethol a'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y rhaglenni hyn, y cymwysterau y maent yn eu dyfarnu, y trefnau dysgu, addysgu ac asesu y maent yn eu defnyddio, y cyfraddau pasio a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'w myfyrwyr, yn ogystal â gwybodaeth am swyddi'r graddedigion.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 7 - Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni

Mae pob darparwr yn cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu modiwlau a rhaglenni astudio gan sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae pob darparwr yn sicrhau bod ei ddarpariaeth a lefel y cymwysterau'n gymaradwy â'r rheiny a gynigir ar draws y DU, a, lle bo'n berthnasol, yn gyfatebol â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

**Yr Arferion Allweddol:**

7b. O ganlyniad i'r prosesau cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu, cynhyrchir cyfres ddiffiniol o ddogfennau, sy'n cael ei chadw'n ddiogel ac yn cael ei defnyddio fel y brif ffynhonnell wybodaeth am bob rhaglen. Mae trefniadau tebyg ond cymesur ar waith ar gyfer modiwlau ac unedau astudio llai.

### Egwyddor 9 - Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr

Mae pob darparwr yn gweithredu prosesau recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr sy'n eglur, yn deg ac yn gynhwysol. Mae pob darparwr yn cadw, yn cynnal ac yn cyhoeddi gwybodaeth gywir, berthnasol a hygyrch am ei ddarpariaeth, gan alluogi i'w fyfyrwyr wneud dewisiadau deallus am eu hastudiaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Yr Arferion Allweddol:**

9b. Mae darparwyr yn cynnig gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr a'r rheiny sy'n eu cynghori, at ddibenion recriwtio ac ehangu mynediad, sydd o gymorth iddyn nhw wrth wneud penderfyniadau deallus. Mae pob darparwr yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol mewn perthynas â'r wybodaeth y mae'n ei chyflwyno amdano ei hun a'i ddarpariaeth, neu unrhyw newidiadau a wneir i fodiwlau a rhaglenni astudio.

9d. Mae pob tîm sy'n ymwneud â'r prosesau ymgeisio a dethol a derbyn myfyrwyr yn sicrhau bod y wybodaeth am y broses ymgeisio'n gyson ac yn eglur. Mae elfennau penodol o'r broses ddethol wedi eu diffinio'n glir, ac mae unrhyw newidiadau i raglenni neu fodiwlau a allai effeithio ar y penderfyniadau a wneir yn cael eu cyfathrebu'n brydlon a chyson er mwyn galluogi i bob parti wneud dewisiadau deallus.

## Egwyddor 10 - Cefnogi myfyrwyr i gyflawni eu potensial

Mae pob darparwr yn hwyluso fframwaith cymorth i'w fyfyrwyr sy'n galluogi iddynt gael profiad dysgu o safon uchel a chyflawni eu potensial wrth iddynt symud ymlaen yn eu hastudiaethau. Mae'r strwythur cymorth yn ategu'r daith ddysgu academaidd, bersonol a phroffesiynol, gan alluogi i'r myfyrwyr adnabod a disgrifio eu datblygiad a'u cyflawniadau.

**Yr Arferion Allweddol:**

10a. Mae pob darparwr yn cynnig gwybodaeth hygyrch, berthnasol, gywir ac amserol i'w fyfyrwyr, a'r staff sy'n eu cefnogi drwy gydol eu teithiau dysgu, am y sefydliad, ac am y rhaglenni astudio, y cyfleoedd datblygu ehangach a'r gwasanaethau cymorth y mae'n eu cynnig.

## Y safon a'r canllawiau yn ESG 2015

### 1.9 MONITRO RHAGLENNI'N BARHAUS A'U HADOLYGU'N GYFNODOL

Dylai sefydliadau fonitro eu rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u gosod iddynt ac yn ymateb i anghenion y myfyrwyr a'r gymdeithas. Dylai'r adolygiadau hyn arwain at welliant y rhaglen yn barhaus. Dylid cyfathrebu unrhyw gamau gweithredu a gynllunnir neu a gymerir o ganlyniad i'w cynllunio, i bawb sy'n berthnasol.

**Y canllawiau:**

Nod y gwaith o fonitro, adolygu a diwygio rhaglenni astudio'n rheolaidd yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau'n briodol a chreu amgylchedd dysgu cefnogol ac effeithiol i fyfyrwyr. Maent yn cynnwys gwerthuso:

- Cynnwys y rhaglen yng nghyd-destun y gwaith ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth berthnasol gan felly sicrhau bod y rhaglen ar ei ffurf fwyaf diweddar
- Anghenion newidiol y gymdeithas
- Llwyth gwaith, cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr
- Effeithiolrwydd y gweithdrefnau ar gyfer asesu myfyrwyr
- Disgwyliadau, anghenion a boddhad y myfyrwyr mewn perthynas â'r rhaglen
- Yr amgylchedd dysgu a'r gwasanaethau cymorth a pha mor addas ydynt i bwrpas y rhaglen.

Mae rhaglenni'n cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd gyda chyfranogaeth gan fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei dadansoddi ac mae'r rhaglen yn cael ei haddasu i sicrhau ei bod ar ei ffurf ddiweddaraf. Cyhoeddir manylebau rhaglenni diwygiedig.

## Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol

### Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth

Mae pob darparwr yn monitro ac yn adolygu ei ddarpariaeth yn rheolaidd i sicrhau safonau academaidd a gwella ansawdd. Cymerir camau pwrpasol i gynnwys y myfyrwyr, y staff ac arbenigwyr allanol mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso. Mae canlyniadau ac effeithiau'r gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried ar lefel y darparwr er mwyn ysgogi hunanwerthuso a gwella ymhob rhan o'r darparwr.

**Yr Arferion Allweddol:**

5b. Mae'r dulliau monitro a gwerthuso'n cael eu dogfennu i egluro eu nodau, eu hamcanion, eu targedau, a'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd. Mae'r ddogfennaeth yn nodi'n glir sut y cânt eu gweithredu, natur y dystiolaeth (data) sydd i gael ei hystyried a'r dulliau adrodd, yn ogystal â dangosyddion llwyddiant allweddol.

5c. Mae'r staff a'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso, ac maent yn cael eu hyfforddi'n briodol i'w cefnogi yn eu gwaith.

5e Yn eu tro, mae gwelliannau a datblygiadau sydd wedi eu rhoi ar waith o ganlyniad i fonitro a gwerthuso, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol, a bod y trefniadau'n parhau'n addas i'r diben.

5g. Mae'r rhaglenni a'r modiwlau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan gymheiriaid mewnol ac allanol, a chyflogwyr a myfyrwyr, yn unol â dull strategol y darparwr o reoli ansawdd a safonau. Mae'r canlyniadau a geir o'r prosesau hynny sy'n ofynnol gan gyrff cyllido, achredu, proffesiynol a chymeradwyo'n bwydo i mewn i'r gwaith monitro ac adolygu.

*Continued on next page*

## Egwyddor 7 - Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni

Mae pob darparwr yn cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu modiwlau a rhaglenni astudio gan sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae pob darparwr yn sicrhau bod ei ddarpariaeth a lefel y cymwysterau'n gymaradwy â'r rheiny a gynigir ar draws y DU, a, lle bo'n berthnasol, yn gyfatebol â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

**Yr Arferion Allweddol:**

7d. Cyhoeddir polisïau a phrosesau sy'n ategu'r gwaith o gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau ar wefan pob darparwr, ac mae'n hawdd i'r rhanddeiliaid allweddol gael gafael arnynt.

7e. Mae ymgysylltu a gwerthuso allanol yn rhannau integrol o'r prosesau o gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu.

7f. Mae'r prosesau cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu'n cyd-fynd â pholisïau ac arferion y darparwr ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol.

7g. Mae myfyrwyr yn cyfranogi'n ystyrlon yn y gwaith o gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau.

## 1.10 ADOLYGIADAU SICRWYDD ANSAWDD ALLANOL CYLCHOL

Dylai sefydliadau gael adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn gylchol, yn unol â'r ESG.

**Y canllawiau:**

Gall adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn eu hamrywiol ffurfiau wirio bod prosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliadau'n effeithiol, gall weithredu fel catalydd ar gyfer gwella a chynnig safbwyntiau newydd i'r sefydliad. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth i roi sicrwydd i'r sefydliad a'r cyhoedd am ansawdd gweithgareddau'r sefydliad.

Mae sefydliadau'n cyfranogi mewn prosesau sicrhau ansawdd allanol cylchol sy'n rhoi ystyriaeth, lle bo'n berthnasol, i ofynion y fframwaith deddfwriaethol y maent yn gweithredu o'i fewn. Felly, yn dibynnu ar y fframwaith, gallai'r broses allanol hon o sicrhau ansawdd fod mewn gwahanol ffurfiau a bod â ffocws ar wahanol lefelau sefydliadol (megis y rhaglen, y gyfadran neu'r sefydliad).

Mae sicrhau ansawdd yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben gyda'r adroddiad neu'r adborth allanol na'r broses ddilyniant o fewn y sefydliad. Felly, mae sefydliadau'n sicrhau bod y cynnydd a wnaed ers y gweithgaredd sicrhau ansawdd allanol diwethaf yn derbyn ystyriaeth wrth baratoi ar gyfer y nesaf.



### Egwyddor 1 - Defnyddio dull strategol o reoli ansawdd a safonau

Mae pob darparwr yn dangos bod ganddo ddull strategol o sicrhau safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi ei ymwreiddio ar bob lefel yn ei sefydliad.

**Yr Arferion Allweddol:**

1f. Mae arbenigedd allanol yn elfen allweddol o'r dull strategol o reoli ansawdd a safonau.

### Egwyddor 6 - Cymryd rhan mewn prosesau adolygu ac achredu allanol

Mae pob darparwr yn cymryd rhan mewn prosesau adolygu allanol i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ei ddull o reoli ansawdd a safonau. Mae adolygiadau allanol yn cynnig cipolwg ar gymharedd dulliau darparwyr ac yn cynhyrchu canlyniadau y gall darparwyr eu defnyddio i wella eu polisïau a'u harferion. Gall darparwyr gomisiynu adolygiadau, gallant fod yn rhan o fframwaith ansawdd cenedlaethol neu fod yn gysylltiedig â chydnabyddiaeth broffesiynol a chynnwys staff, myfyrwyr a chymheiriaid yn y gwaith. Gall y prosesau hyn gael eu gweithredu gan sefydliadau cynrychioli, asiantaethau neu gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh) sydd ag arbenigedd a gydnabyddir gan y sector mewn perthynas â'r ddarpariaeth benodol sy'n cael ei hadolygu.

**Yr Arferion Allweddol:**

6a. Mae prosesau adolygu allanol, p'un a ydyn nhw'n ddewisol neu'n ofynnol gan y fframweithiau ansawdd cenedlaethol neu gyrff achredu, yn rhan annatod o ddull strategol y darparwr ac maen nhw'n alinio â'r gweithgareddau mewnol i fonitro a gwerthuso ansawdd a safonau.

6b. Mae pob darparwr yn defnyddio canlyniadau prosesau adolygu ac achredu allanol fel catalydd ar gyfer gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr yn barhaus a'i ddatblygu ymhellach ar lefel strategol.

6d. Mae pob darparwr sy'n cael ei adolygu'n allanol yn deall y cyd-destunau rheoleiddiol a deddfwriaethol yn y DU y mae'n gweithio ynddynt a'r amrywiaeth o ddulliau, ffurfiau a ffocws sy'n berthnasol. Gallai darparwyr ymwneud â chydweithwyr sydd ag arbenigedd rhyngwladol, yn ogystal â'r rheiny sy'n gyfarwydd â'r gofynion yn y DU.

6e. Mae pob darparwr yn deall y gofynion a'r broses ar gyfer adolygiadau allanol a allai fod yn ofynnol gan gyrff rheoleiddio yn lleoliadau darparu'r partneriaid.

## Tabl Crynodol

| Y safon yn yr ESG | Yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector a'r Arferion Allweddol, fel sy'n berthnasol |
|---|---|
| 1.1 Polisi ar gyfer sicrhau ansawdd | Egwyddor 1: Defnyddio dull strategol o reoli ansawdd a safonau<br>Arferion Allweddol: a, b, c, d, e |
| 1.2 Cynllunio a chymeradwyo rhaglenni | Egwyddor 5: Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth<br>Arferion Allweddol: g<br><br>Egwyddor 7: Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni<br>Arferion Allweddol: a, c, e, g<br><br>Egwyddor 11: Addysgu, dysgu ac asesu<br>Arferion Allweddol: b |
| 1.3 Dysgu, addysgu ac asesu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr | Egwyddor 2: Cynnwys myfyrwyr fel partneriaid<br>Arferion Allweddol: a, b, d<br><br>Egwyddor 5: Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth<br>Arferion Allweddol: c<br><br>Egwyddor 11: Addysgu, dysgu ac asesu<br>Arferion Allweddol: a, b, c, d, f |
| 1.4 Derbyniad, cynnydd, cydnabyddiaeth ac ardystiad myfyrwyr | Egwyddor 4: Defnyddio data i hysbysu a gwerthuso ansawdd<br>Arferion Allweddol: a, b<br><br>Egwyddor 5: Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth<br>Arferion Allweddol: b<br><br>Egwyddor 7: Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni<br>Arferion Allweddol: a, c<br><br>Egwyddor 9: Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr<br>Arferion Allweddol: a, b, d |
| 1.5 Staff addysgu | Egwyddor 4: Defnyddio data i hysbysu a gwerthuso ansawdd<br>Arferion Allweddol: d<br><br>Egwyddor 9: Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr<br>Arferion Allweddol: c<br><br>Egwyddor 10: Cefnogi myfyrwyr i gyflawni eu potensial<br>Arferion Allweddol: d<br><br>Egwyddor 11: Addysgu, dysgu ac asesu<br>Arferion Allweddol: c |
| 1.6 Adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr | Egwyddor 3: Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyflwyno profiad dysgu o safon uchel<br>Arferion Allweddol: b, d, e, f, g<br><br>Egwyddor 10: Cefnogi myfyrwyr i gyflawni eu potensial<br>Arferion Allweddol: a, b, c, d, e, f<br><br>Egwyddor 11: Addysgu, dysgu ac asesu<br>Arferion Allweddol: a, b, c, e, f |
| 1.7 Rheoli gwybodaeth | Egwyddor 4: Defnyddio data i hysbysu a gwerthuso ansawdd<br>Arferion Allweddol: a, b, c, e, f |
| 1.8 Gwybodaeth gyhoeddus | Egwyddor 7: Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni<br>Arferion Allweddol: b<br><br>Egwyddor 9: Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr<br>Arferion Allweddol: b, d<br><br>Egwyddor 10: Cefnogi myfyrwyr i gyflawni eu potensial<br>Arferion Allweddol: a |
| 1.9 Monitro rhaglenni'n barhaus a'u hadolygu'n gyfnodol | Egwyddor 5: Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth<br>Arferion Allweddol: b, c, e, g<br><br>Egwyddor 7: Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni<br>Arferion Allweddol: d, e, f, g |
| 1.10 Adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol cylchol | Egwyddor 1: Defnyddio dull strategol o reoli ansawdd a safonau<br>Arferion Allweddol: f<br><br>Egwyddor 6: Cymryd rhan mewn prosesau adolygu ac achredu allanol<br>Arferion Allweddol: a, b, c, d, e |

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk